**GORCHYMYN GWYRO LLWYBR CYHOEDDUS**

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**
**ADRAN 257**

**GORCHYMYN GWYRO LLWYBR CYHOEDDUS**
**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**
**(GWYRO LLWYBR TROED 19 LLANGRALLO ISAF) RHIF 4 2022**

Mae’r Gorchymyn hwn wedi ei wneud gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y cyfeirir ato yma wedi hyn fel "yr awdurdod") o dan Adran 257 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 am ei fod wedi ei fodloni bod angen gwyro'r llwybr troed y mae'r Gorchymyn yn cyfeirio ato er mwyn i ddatblygiad gael ei gyflawni yn unol â Chaniatâd Cynllunio a roddwyd o dan Ran III o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sef:

Cais cynllunio amlinellol i ddatblygu hyd at 71,441 metr sgwâr o arwynebedd cyflogaeth B1, B2 a B8, gan gynnwys mynedfeydd, parcio ceir, gwyro hawliau tramwy cyhoeddus, adfer safleoedd, draenio, tirlunio a gwaith peirianneg perthynol, a gafodd ganiatâd amodol (amlinellol) ar 7 Gorffennaf 2017 ar dir i'r dwyrain o'r A48 (Crack Hill), Brocastell, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 5AU (P/16/549/OUT).

Diwygiad Ansylweddol i Amodau 3, 4, 5, 6, 7, 8, 10, 11, 12, 13, 18, 19, 20, 21, 22, 23 a 24 o P/16/549/OUT i newid geiriad yr amodau i ganiatáu gwaith hwyluso, a gafodd ganiatâd amodol Diwygiad Ansylweddol ar 10 Ionawr 2018 ar dir i'r dwyrain o'r A48 (Crack Hill), Brocastell, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 5AU (P/17/1044/NMA).

Materion a neilltuwyd i P/16/549/OUT i gymeradwyo gwaith tirlunio o fewn y safle datblygu, a gafodd ganiatâd amodol (materion a neilltuwyd) ar 25 Chwefror 2019 ar dir i'r dwyrain o'r A48 (Crack Hill), Brocastell, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 5AU (P/18/492/RES).

Amrywiad ar amod 1 o P/16/549/OUT i ddiwygio’r prif gynllun a’r paramedrau darluniadol, a gafodd ganiatâd amodol (RLX) ar 30 Mehefin 2020 ar dir i'r dwyrain o'r A48 (Crack Hill), Brocastell, Pen-y-bont ar Ogwr, CF35 5AU (P/20/269/RLX).

Drwy'r Gorchymyn hwn:

1. Bydd y llwybr troed dros y tir a ddangosir â llinell ddu drom ar y map a atodwyd ac a ddisgrifir yn Rhan 1 o'r Atodlen ("yr Atodlen") i'r Gorchymyn hwn yn cael ei wyro fel y darperir isod.

2. Bydd priffordd amgen yn cael ei chreu er boddhad rhesymol yr awdurdod i'w defnyddio yn lle'r llwybr troed a enwyd fel y darperir yn Rhan 2 o'r Atodlen ac fel y'i dangosir â llinellau toriad trwm ar y map a atodwyd.

3. Bydd y penderfyniad i wyro'r llwybr yn dod yn effeithiol ar y dyddiad y bydd yr awdurdod yn ardystio y cydymffurfiwyd â thelerau Erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn.

4. Rhaid i'r gwaith a ganlyn gael ei wneud mewn perthynas â'r briffordd a ddisgrifir yn Rhan 2 o'r Atodlen:

    i. Bydd darn A-C-D-E-Z-F-G-H-I a J-L-K o'r gwyriad yn 2 fetr o led a bydd iddo wyneb naturiol.

    ii. Caiff y gwyriad ei farcio â physt a disgiau priodol.

    iii. Codir clwyd i gerddwyr (BS5709:2018) wrth Bwynt E (Cyfeirnod Grid SS 92927777).

5. Mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru, Adeilad y Goron, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ dalu'r costau sy'n gysylltiedig â gwneud y Gorchymyn hwn.

6. Os oes offer, yn union cyn gwyro'r llwybr troed, o dan y llwybr troed, ynddo, neu drosto, ar ei hyd neu ar ei draws, sy'n perthyn i ymgymerwyr statudol er mwyn cyflawni eu hymgymeriad, bydd gan yr ymgymerwyr yr un hawliau o hyd o ran yr offer ag a oedd ganddynt y pryd hwnnw.

## ATODLEN

## RHAN 1
## DISGRIFIAD O'R LLWYBR NEU'R FFORDD BRESENNOL SYDD I'W GWYRO

Mae'r adran o Lwybr Troed 19, Llangrallo Isaf sydd i'w gwyro yn dechrau wrth Bwynt A (Cyf. Grid SS 92857765), ac yn parhau tua'r dwyrain-ogledd-ddwyrain yn gyffredinol am ryw 615 metr hyd at ei bwynt terfyn wrth Nant Brocastell, Pwynt B (Cyf. Grid. SS 93407790).

Cyfanswm y darn o Lwybr Troed 19 sydd i'w wyro yw rhyw 615 metr ac nid yw'r lled wedi ei ddiffinio ar hyn o bryd yn y Datganiad Diffiniol.

## RHAN 2
## DISGRIFIAD O SAFLE'R LLWYBR NEU'R FFORDD AMGEN

Mae'r llwybr yn dechrau o Bwynt A (Cyf. Grid SS 92857765) gan barhau tua'r gogledd-orllewin am ryw 124 metr hyd at Bwynt C (Cyf. Grid SS 92767773) cyn parhau tua'r gogledd-ogledd-ddwyrain am ryw 12 metr hyd at Bwynt D (Cyf. Grid SS 92777775), yna mae'r llwyr yn parhau tua'r dwyrain-ogledd-ddwyrain am ryw 161 metr hyd at Bwynt E (Cyf. Grid SS 92927777), lle mae'n troi ac yn rhedeg tua'r gogledd-ogledd-orllewin am 28 metr hyd at Bwynt Z (Cyf. Grid SS 92917794), cyn parhau tua'r gogledd am 65 metr hyd at Bwynt F (Cyf. Grid SS 92927786), yna mae'n parhau tua'r gogledd-ddwyrain am ryw 19 metr hyd at Bwynt G (Cyf. Grid SS92937787). Yna mae'n parhau tua'r dwyrain-ogledd-ddwyrain am 138 metr hyd at Bwynt H (Cyf. Grid SS 93077789), cyn rhedeg yn olaf tua'r gogledd-ddwyrain am ryw 180 metr hyd at ei gyffordd â Llwybr Troed 18 Llangrallo Isaf wrth Bwynt I (Cyf. Grid SS 93237797). Cyfanswm hyd y llwybr troed yn fras yw 727 metr, mae'n 2 fetr o led ac â wyneb naturiol ac fe'i dangosir â llinellau toriad du trwm ar Fap y Gorchymyn rhwng y pwyntiau y cyfeirir atynt.

Mae llwybr amgen ychwanegol Llwybr Troed 19 Llangrallo Isaf yn dechrau o'i gyffordd â Llwybr Troed 19 Llangrallo Isaf wrth Bwynt J (Cyf. Grid SS 93327789), gan barhau tua'r dwyrain yn gyffredinol am ryw 58 metr hyd at Bwynt K (Cyf. Grid SS 93387789), cyn troi a rhedeg tua'r gogledd-ddwyrain am ryw 18 metr hyd at ei bwynt terfyn wrth Nant Brocastell wrth Bwynt L (Cyf. Grid SS 93397790). Cyfanswm hyd llwybr amgen ychwanegol Llwybr Troed 19 Llangrallo Isaf yw 76 metr, mae'n 2 fetr o led ac â wyneb naturiol ac fe'i dangosir â llinellau toriad du trwm ar Fap y Gorchymyn rhwng y pwyntiau y cyfeirir atynt.


Gosodwyd Sêl Gyffredin CYNGOR BWRDEISTREF )
SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR ar hyn )
ar y dydd o fis 2022 )

……………………………………………………. Llofnodydd Awdurdodedig

# PUBLIC PATH DIVERSION ORDER

**TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990 SECTION 257**

**BRIDGEND COUNTY BOROUGH COUNCIL (DIVERSION OF FOOTPATH 19 COYCHURCH LOWER) PUBLIC PATH DIVERSION ORDER NO. 4 2022**




## KEY

Proposed section of Footpath 19 Coychurch Lower to be diverted (A-B)

Proposed alternative route Footpath 19 Coychruch Lower (A-C-D-E-Z-F-G-H-I & J-K-L)

Footpath 18 Coychruch Lower

**Scale: 1: 3500**

N W E S

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND County Borough Council


**Janine Nightingale**
**Corporate Director - Communities**
**Communities Directorate**

**Bridgend County Borough Council,**
**Civic Offices,**
**Angel Street,**
**Bridgend,**
**CF31 4WB**



©Crown Copyright and database right 2021. Ordnance Survey 100023405. Use of this data is subject to terms and conditions.
©Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2021 Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans 100023405. Mae defnydd o'r data hwn yn ddarostyngedig i delerau ac amodau.

Aerial Imagery: Cities Revealed aerial photography copyright The GeoInformation Group 2011. Copyright Getmapping plc.

Countryside Council for Wales, ©Crown Copyright and database right 2011. Ordnance Survey 100018813.

Forestry Commission, ©Crown Copyright and database right 2011. Ordnance Survey 100025498.

HIG001-1068 DO